Arholiadau Ysgoloriaethau
a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Ffilm a Theledu

Amser: 1.5 awr (90 munud)

Atebwch 2 Gwestiwn

1. Trafodwch bwysigrwydd sinematograffi a *mise-en-scène* i naratif ffilm. Defnyddiwch enghreifftiau i ategu'ch dadl.

2. Trafodwch bwysigrwydd sain mewn ffilm. Beth mae'n ei gyfrannu at ddweud y stori. Dylech gyfeirio at o leiaf DDWY ffilm sy'n adnabyddus am eu defnydd o sain.

3.

> 'Mae ffenomenon y sêr yn cynnwys popeth sydd ar gael yn gyhoeddus am y sêr. Nid y ffilmiau yn unig sy'n creu delwedd y seren ffilm ond y deunydd a ddefnyddir i hysbysebu'r ffilmiau ac i hyrwyddo'r seren megis y lluniau deniadol, yr ymddangosiadau cyhoeddus, y deunyddiau o'r stiwdio ac ati, yn ogystal â'r cyfweliadau, y deunydd bywgraffiadol a'r sylw a roddir gan y wasg i weithgareddau a bywyd 'preifat' y seren. Ar ben hyn, mae delwedd y sêr yn cynnwys yr hyn mae pobl yn ei ddweud amdanynt, yn feirniaid neu sylwebyddion, sut mae'r ddelwedd yn cael ei defnyddio mewn cyd-destunau eraill megis hysbysebion, nofelau, caneuon pop, ac yn olaf sut y gall y seren ddod yn rhan o iaith bob dydd.' (Dyer, Richard, 2004, Heavenly Bodies, tt.2-3).

Trafodwch enwogrwydd un neu ddwy o sêr byd ffilm neu deledu o ran y dyfyniad uchod.

4. Mae Netflix wedi eich comisiynu i greu cyfres deledu ddogfennol; sut fyddech chi'n mynd ati i wneud hyn? Meddyliwch am benderfynu ar y pwnc, y thema a sut yr ewch ati, datblygu dull o wneud gwaith ymchwil, cynnig syniadau neu gyfleu syniadau i Netflix, dod o hyd i ddeunydd ffilm archifol neu 'hapgael' a'i ddefnyddio (os yw'n briodol), cynllunio'r sesiwn ffilmio ac unrhyw ystyriaethau technegol neu foesegol.

5. Pa ran mae teledu wedi'i chwarae yn y gymdeithas ym Mhrydain yn ystod yr 20fed ganrif? Yn eich ateb, dylech gyfeirio at astudiaethau achos o'r cyfnod cynnar yn hanes y teledu yn ogystal ag astudiaethau achos cyfoes neu fwy diweddar.

6. Cloriannwch y dulliau a ddefnyddir i greu ffilm arswyd gyffrous a dychrynllyd. Dylech gyfeirio at o leiaf DDWY ffilm yn eich ateb.

7. Mae ffilm Todd Phillips *Joker: Folie à Deux* (2024) wedi cael adolygiadau cymysg gan y beirniaid ffilm yn ogystal â'r cyhoedd sy'n mynychu dangosiadau ffilm. Mae'r cylchgrawn Empire (4 Medi 2024) yn awgrymu 'er bod gwneuthurwyr y ffilm a'r marchnata yn gyndyn i roi'r label 'sioe gerdd' arni, dyma yn wir yw'r ffilm hon', ac 'ni ddylai selogion llyfrau comics ddod i weld *Folie à Deux* gan ddisgwyl gweld ymdriniaeth archarwyr gonfensiynol yma, yna – yn yr un modd, ni ddylai selogion theatr-gerdd ddisgwyl gweld canu a dawnsio o'r radd flaenaf'. Os felly, sut y gallech chi ddadansoddi, categoreiddio a deall y ffilm yn enwedig o ran *genre* ffilmiau llyfrau comics? ac i ba raddau mae'r ffilm hon yn dangos addewid o ddod yn glasur cwlt? Trafodwch.